Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU, DOGFENNU

# Adroddiad rheoli gwastraff trefol awdurdod lleol: Gorffennaf i Fedi 2024

Data ar yr ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio o wastraff trefol ar gyfer Gorffennaf i Fedi 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 14 Mai 2025

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 14 Mai 2025

# Cynnwys

**Cyflwyniad** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/68324#171690)

**Prif bwyntiau (data dros dro)** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/68324#171692)

**Nodiadau** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/68324#171694)

**Manylion cyswllt** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/68324#171696)

# Cyflwyniad

Mae canran y gwastraff trefol awdurdod lleol a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio yng Nghymru wedi cynyddu yn sylweddol yn ystod y ddwy ddegawd ddiwethaf (o tua 5% yn yr 1990au hwyr).

# Prif bwyntiau (data dros dro)

## Hydref 2023 i Medi 2024

- Cafodd 66.8% o wastraff ei ailddefnyddio/ei ailgylchu/ei gompostio, sef cynnydd o 0.7% o gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben fis Medi 2023, a'r ffigur 12 mis uchaf a gofnodwyd erioed.

## Gorffennaf i Medi 2024

- Cafodd 67.4% o wastraff trefol ei ailddefnyddio/ei ailgylchu/ei gompostio, sef cynnydd o 0.2% o gymharu â'r chwarter cyfatebol yn 2023, a'r ail ffigur uchaf a gofnodwyd erioed ar gyfer chwarter mis Ebrill i fis Mehefin.
- Cafodd 364,995 o dunelli o wastraff trefol eu cynhyrchu, sef cynnydd o 1.1% o gymharu â'r un chwarter yn 2023 a chynnydd o 1.2% o gymharu â'r un chwarter yn 2022.

Mae'r ffigyrau hyn yn seiliedig ar ddata dros dro sy'n cael eu cyhoeddi bob chwarter. Caiff y data terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol eu cyhoeddi'n flynyddol.

# Nodiadau

Cesglir data ar reolaeth gwastraff er mwyn monitor cynnydd yn erbyn targedau

lleol a chenedlaethol; yn benodol yn erbyn gofynion Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a'r Gyfarwyddeb Tirlenwi. Yn y strategaeth gwastraff cyfredol '**Mwy nag ailgylchu** (/mwy-nag-ailgylchu-0)' (2021) mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau ailgylchu statudol o 64% o wastraff erbyn 2019-20 a 70% erbyn 2024-25.

Daw'r data or system WasteDataFlow sy'n cael ei fonitro gan Adnoddau Naturiol Cymru. Mae gwybodaeth ansawdd ar gael yn yr **adroddiad ansawdd** (/adroddiad-rheoli-gwastraff-trefol-awdurdod-lleol-adroddiad-ansawdd).

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Luned Jones
E-bost: **ystadegau.amgylchedd@llyw.cymru** (mailto:ystadegau.amgylchedd@llyw.cymru)

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.